# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Maes-y-felin CYF**

**Cartref Gofal Maesyfelin**
**Drefach**
**Llanybydder**
**SA40 9YB**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Maes-y-felin CYF

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Gofal Maes-y-felin |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn fodlon iawn ar y gwasanaeth cyson dda y maent yn ei gael. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a gofalgar, y maent wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw. Wrth drafod y gwasanaeth, dywedodd gweithwyr gofal wrthym *"It's a nice home and I love making the residents laugh".*

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn groesawgar, gydag ystafelloedd cymunedol a safleoedd a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn i'r bobl allu ymlacio a rhyngweithio â'i gilydd. Dywedodd un cynrychiolwr wrthym *"It doesn't feel like a care home it's more like home from home".*

Yr Unigolyn Cyfrifol yw rheolwr y gwasanaeth hefyd ac mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ei adnabod yn dda ac yn ei werthfawrogi. Mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mae'r wybodaeth o'r ymweliadau a'r archwiliadau mewnol yn llywio ei adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal cyson, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol/rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Caiff y bobl eu trin fel unigolion a chânt eu cefnogi i wneud pethau sydd o bwys iddynt fel ymweld â'u teulu, cael mynd i'r ardal leol a chymdeithasu. Mae ymdeimlad cryf o gymuned yn y gwasanaeth ac mae'r bobl yn cyfrannu at hynny drwy gynnig cymorth i'w gilydd. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd gartrefol, ystyriol, a gofalgar â'r staff. Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth buddiol a gynigir; dywedodd un, *“They are fantastic, I trust them, and they are like a second family to us”.* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio a hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a’r cymorth cywir.  Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y tîm cyfan o'r staff.

Mae'r adeilad yn gyfforddus, yn gartrefol ac mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn fawr, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd sydd ar gael iddynt i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, sgwrsio â'i gilydd, gwylio'r teledu, darllen, a chwrdd â'u hymwelwyr. Mae'r bobl yn helpu i gynnal a chadw'r tir ac mae'r gerddi ar gael i'r bobl wneud yr hyn sydd o bwys iddynt.

Mae gan y bobl lais o ran sut y caiff y gwasanaeth ei redeg gan eu bod yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr yn dda ac yn gallu cael trafodaethau yn rheolaidd. Caiff y bobl eu cynnwys yn y rhaglenni sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Gwelsom lawer o ryngweithio cyfeillgar a sensitif rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Dywedodd unigolyn wrthym *“The staff are wonderful, affectionate and so caring”.* Mae gweithwyr angerddol yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl, eu parchu fel unigolion a meithrin cydberthnasau gofalgar. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *“I like talking to the residents and helping them as much as I can”* a *“We make some lovely attachments with people”.* Mae gan y cynrychiolwyr hyder ac ymddiriedaeth yn y gofal a'r cymorth a gynigir, a dywedodd un unigolyn wrthym *“The Staff are brilliant, they really look after him well, they have adapted so well to his changes in need”.*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, y gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynnal y cynlluniau personol electronig. Mae uwch-aelodau o'r staff yn adolygu cynlluniau bob mis i sicrhau bod y wybodaeth yn fuddiol, yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys. Mae asesiadau risg yn cefnogi'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth, tra'n eu helpu i gadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r nodiadau dyddiol yn llawn gwybodaeth ac yn cofnodi’r gofal a'r cymorth a roddir ac yn achlysurol yn rhoi disgrifiad o'r diwrnod o safbwynt y person.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor gymdeithasol â phosibl ac i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Caiff gweithgareddau ffurfiol eu trefnu fel celf, crefft, dosbarthiadau ymarfer corff a diddanwyr sy'n ymweld â'r cartref; mae'r bobl hefyd yn mwynhau darllen papurau newydd a llyfrau, gwylio'r teledu a rhyngweithio â'i gilydd. Ceir ymdeimlad o deulu yn y gwasanaeth. Mae unigolyn a'i deulu yn gofalu am ran o'r ardd gyda'i gilydd ac mae pawb yn mwynhau rhyngweithio â'r ymwelwyr i gyd.

Mae lefelau staffio digonol ar waith er mwyn diwallu anghenion y bobl yn effeithiol a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a phwyllog yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda gan dîm cadw tŷ a thîm cynnal a chadw dynodedig. Mae'r ardaloedd cymunedol yn olau ac yn ffres ac mae'r bobl yn mwynhau'r golygfeydd. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *“The views out on the garden are lovely, especially on nice days like this”.* Mae'r bobl yn hamddenol o gwmpas y cartref. Maent yn mwynhau treulio amser yn y gwahanol ardaloedd sydd ar gael, yn siarad â'i gilydd, â'r staff, a'r ymwelwyr. Gall yr unigolion bersonoli eu hystafelloedd â ffotograffau, lluniau a dodrefn eu hunain. Mae blodau lliwgar wedi'u plannu ar y tiroedd deniadol, ac mae'r bobl yn mwynhau cael golwg arnynt gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r darparwr yn ymateb i faterion cynnal a chadw ac yn sicrhau y caiff décor y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn creu awyrgylch croesawgar i'r bobl. Cawsom wybod bod camau yn cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i broblemau a bod gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau'n brydlon. Mae'r rhaglen ar gyfer gwaith uwchraddio wedi'i gynllunio yn sicrhau bod yr adeilad a'r cyfarpar yn ddiogel ac yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau.

Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch trylwyr o'r eiddo yn rheolaidd. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r darparwr yn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi’u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Cafodd y gegin sgôr o bump ar gyfer hylendid bwyd. Mae'r staff arlwyo yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau pawb. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref ffres ac yn edrych ymlaen at amseroedd bwyd gyda'i gilydd. Dywedodd unigolyn wrthym *“The food is fantastic; I have no complaints at all”.*

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau da ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Yr Unigolyn Cyfrifol hefyd yw rheolwr y cartref, ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol, ac mae'n yn cael adborth gan y bobl a'u gweithwyr gofal bob tri mis. Cwblheir archwiliadau yn rheolaidd, a gwelsom adborth gan y bobl a'r staff gofal mewn arolygon. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio mewn Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr wedi'i leoli yn y gwasanaeth ac mae'n adnabod yr unigolion yn dda, a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar rhyngddo â'r bobl. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei arwain; dywedodd un wrthym *"I usually talk to the staff or [Deputy Manager] if I have a problem but I can go to [RI/Manager] and she always answers me straight away".* Mae'r gweithwyr gofal yn disgrifio'r Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr fel unigolyn cefnogol iawn, a dywedodd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored sydd ganddi. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym, *"She (RI/Manager) listens, and we get what we need to look after people"* a *"[RI/Manager] is good to work for, any problems I can talk to her".*

Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a gwnaethant ddweud wrthym y gallant drafod unrhyw beth ar unrhyw adeg gyda'r Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"If I have a problem I can go straight to [RI/Manager or Deputy] there and then rather than wait for supervision. It's much better that way"*. Mae trafodaethau â'r staff yn dangos dealltwriaeth ddigonol o ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw faterion i uwch-aelodau o'r staff. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae aelodau newydd o'r staff yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac effeithiol, i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'r unigolyn yn helpu'r holl staff i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym *"The training is helpful" ac "It gives me a refresher and a recap on what I should be doing".* Caiff y staff eu cefnogi gan yr uwch-reolwyr i gwblhau 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ac i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi bod yn y gwasanaeth ers blynyddoedd a gallant gyfathrebu â'r bobl yn Gymraeg neu Saesneg. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall anghenion a dewisiadau pob unigolyn. Dywedodd un unigolyn wrthym *"I've just moved into the home, and they have been fantastic*".

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/10/2023